OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 611

# Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023

**Diwygiadau i reoliad 3**

**3.** Yn rheoliad 3 (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai)—

(a) hepgorer yr "ac" ar ôl paragraff (l);

(b) ar ddiwedd paragraff (m), yn lle "." rhodder "; ac";

(c) ar ôl paragraff (m) mewnosoder—

"(n) Dosbarth N – person—

(i) a oedd yn preswylio yn Sudan cyn 15 Ebrill 2023;

(ii) a adawodd Sudan mewn cysylltiad â'r trais a wnaeth ddwysáu yn gyflym ar 15 Ebrill 2023 yn Khartoum a ledled Sudan;

(iii) sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol â'r Rheolau Mewnfudo(**1**);

(iv) nad yw ei ganiatâd yn ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gynnal a lletya ei hun, ac unrhyw berson sy'n ddibynnol arno, heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus; a

(v) nad yw'n berson (P)—

(aa) sydd wedi cael caniatâd yn dilyn ymgymeriad a roddwyd gan noddwr P;

(bb) a fu'n preswylio yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Weriniaeth Iwerddon am lai na phum mlynedd gan ddechrau ar y dyddiad y daeth i mewn neu ar y dyddiad y rhoddodd noddwr P yr ymgymeriad mewn cysylltiad â P, pa bynnag ddyddiad yw'r diweddaraf; ac

(cc) y mae ei noddwr neu, pan fo mwy nag un noddwr, o leiaf un o'i noddwyr, yn dal yn fyw.".

(**1**) Gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 23 Mai 1994 (HC 395), fel y'u diwygiwyd.